Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Cynorthwyydd Cymorth Busnes Lefel 4** |
| **Lleoliad:** | **Yn un o'r gwasanaethau** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Cymorth Busnes** |
| **Cyfeirnod y swydd:** | **BG11118** |
| **Oriau:** | **37** |
| **Cyflog:** | **Gradd 4 (£25,584 – £27,711 y flwyddyn)** |
| **Contract:** | **Cyfnod penodol tan 31 Hydref 2026** |

## Crynodeb o'r Swydd

**Mae Cymorth Busnes yn wasanaeth gweinyddol amrywiol sy'n chwilio am rywun a fydd yn darparu ymagwedd broffesiynol o ansawdd uchel tuag at ddarparu gwasanaethau ar gyfer ei gwsmeriaid, gan sicrhau bod safonau gwasanaeth a gofynion cwsmeriaid yn cael eu bodloni.**

## Hysbyseb Lawn

Mae cyfle wedi codi o fewn y Gwasanaeth Cymorth Busnes i unigolyn brwdfrydig a hyderus sy'n gallu ymateb i'r heriau sydd ynghlwm wrth wasanaeth cymorth prysur.

Mae'r rôl hon yn rhan o'r tîm sy'n rhoi cymorth i'r Gyfarwyddiaeth Addysg a bydd yn darparu gwasanaeth gweinyddol o ansawdd uchel. Mae prif swyddogaethau'r rôl yn cynnwys:

- Cefnogi'r tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i gyflwyno a gweithredu platfform IDP newydd Capita. Bydd y rôl yn cynnwys gweithio gyda'r tîm ADY i gyflwyno'r Cydlynwyr ADY mewn ysgolion a rhanddeiliaid eraill i'r feddalwedd newydd a'r gofynion penodol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU).
- Cynorthwyo gyda datblygiadau arfaethedig cyfres meddalwedd Capita, a fydd yn golygu gweithio ochr yn ochr â'r tîm Perfformiad Corfforaethol i helpu i weithredu modiwlau newydd ac wedi'u huwchraddio a rhoi cymorth dilynol.
- Cynorthwyo'r tîm i greu cardiau adnabod ar gyfer staff y cyngor.
- Cynorthwyo'r tîm i roi cymorth i wasanaethau ehangach y Gyfarwyddiaeth Addysg, a fydd yn cynnwys rhoi cymorth i dimau Derbyniadau, Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles Addysg.

Y cymwysterau ar gyfer y swydd yw 5 TGAU (neu gyfwerth) ar radd C neu uwch (gan gynnwys Mathemateg a Saesneg), NVQ Lefel 2, ac ECDL neu gyfwerth.

Bydd profiad o weithio mewn amgylchedd cymorth busnes neu o fewn ysgol ac ymdrin ag amrywiaeth eang o geisiadau a materion, ynghyd â gwybodaeth gyflawn am wasanaethau cyngor, o fantais fawr yn y rôl hon.

**Mae'r swydd yn cynnwys Lwfans Defnyddiwr Car Achlysurol Cymeradwy ac felly mae gallu defnyddio cerbyd at ddibenion gwaith yn ofynnol.**

**Dyddiad Cau:** **17/04/2025**

**Dyddiad y Cyfweliad:** **T.B.C.**